**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y cyfarfod:** 25 Ebrill 2018

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017-18

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor ar gyfer 2017-18, sy'n rhoi barn gyffredinol y Prif Archwilydd Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n hysbysu'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn mynnu ei fod yn ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylw ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a'r 'farn' gyffredinol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae Adroddiad Archwilio Mewnol 2017-18 wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 ac yn dangos:

- bod y Prif Archwilydd Mewnol wedi rhoi 'sicrwydd canolig' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, yn cynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg;
- nid oes unrhyw gymwysterau ynghlwm wrth 'farn' y Prif Archwilydd Mewnol;
- lefel y gwaith a wnaethpwyd gan Archwilio Mewnol i ddod i'r 'farn' gyffredinol hon;
- sut mae Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS; a
- chrynodeb o berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**
Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.